O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 561 (Cy. 85)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cerbytffordd Tua'r Dwyrain rhwng Cyffordd 31 a Chyffordd 32, Sir y Fflint) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *27 Chwefror 2012* |
| *Yn dod i rym* | *6 Mawrth 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd neu gyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei gyflawni arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Mawrth 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cerbytffordd Tua'r Dwyrain rhwng Cyffordd 31 a Chyffordd 32, Sir y Fflint) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n achosi'r Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 18:30 o'r gloch ar 6 Mawrth 2012 ac a ddaw i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro'n cael eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A55

//

rhwng Cyffyrdd 31 a 32 yn Sir y Fflint sydd wedi eu nodi yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar wahân i gerbyd esempt, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd ar wahân i gerbyd esempt deithio, ar y darnau o'r gefnffordd sydd wedi eu nodi yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar wahân i gerbyd esempt, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd ar wahân i gerbyd esempt deithio, ar gyflymder o fwy na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd sydd wedi eu nodi yn Atodlen 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, farchogaeth unrhyw feic, na pheri i unrhyw feic gael ei farchogaeth, ar y darnau o'r gefnffordd sydd wedi eu nodi yn Atodlen 1.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff unrhyw gerddwr, yn ystod cyfnod y gwaith, fynd ar hyd y darnau o'r gefnffordd sydd wedi eu nodi yn Atodlen 1.

**7.** Nid yw darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 ond yn gymwys yn ystod cyfnodau pan fo cymhwysiad y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny'n cael ei ddangos gan arwyddion traffig, ac i'r graddau y'i dangosir.

**8.** Bydd hyd y Gorchymyn hwn yn ddim mwy na 18 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 27 Chwefror 2012

***G R Morgan***
**GARETH MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; disodlwyd Adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

//

## ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwaharddiad dros dro ar gerbydau, beicwyr a cherddwyr

Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r dwyrain, ar y gefnffordd, sy'n ymestyn o drwyn y slipffordd ymadael tua'r dwyrain yng Nghyffordd 31 (Caerwys) hyd at bwynt 300 o fetrau i'r gorllewin o'r slipffordd ymuno tua'r dwyrain yng Nghyffordd 32a (Helygain).

Hyd cyfan y slipffordd ymuno tua'r dwyrain yng Nghyffordd 31 (Caerwys).

### ATODLEN 2
### Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn o'r gerbytffordd tua'r dwyrain, ar y gefnffordd, sy'n ymestyn o bwynt 2500 o fetrau i'r gorllewin o drwyn y slipffordd ymadael tua'r dwyrain yng Nghyffordd 31 (Caerwys) hyd at drwyn y slipffordd honno, a hyd cyfan y slipffordd ymadael tua'r dwyrain yng Nghyffordd 31.